










# Cynllun Blynyddol Gwneud Synnwyr o’r Cyfryngau

Cyhoeddwyd 7 Hydref 2024

Gwneud Synnwyr
o’r Cyfryngau

# Cynnwys

## Adran


1. Cyflwyniad ..... 3
2. Adroddiad gweithgareddau 2023/24 ..... 4
3. Cynllun ymwybyddiaeth o'r cyfryngau 2024/25 ..... 9
4. Cynllun cyhoeddiadau 2024/25 ..... 17

# 1. Cyflwyniad

Ein gweledigaeth yw bod y DU yn wlad lle mae pobl yn meddu ar y gefnogaeth a'r sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau sydd eu hangen arnynt, a lle mae gwasanaethau ar-lein a darlledwyr yn chwarae eu rhan i sicrhau bod pobl yn gallu ffeindio eu ffordd drwy'r cynnwys, a ffynnu'n ddiogel ar-lein. Rydym yn gwybod na all Ofcom gyflawni'r nod hwn ar ei ben ei hun. Mae ein strategaeth tair blynedd gyntaf ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn amlinellu sut rydym yn bwriadu gwneud ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn fusnes i bawb.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion ein cynnydd ers i ni gyhoeddi ein cynllun blynyddol diwethaf ym mis Ebrill 2023. Rydym yn falch o bopeth rydym wedi'i gyflawni dros y 18 mis diwethaf ar draws ystod o ddisgyblaethau gan gynnwys polisi, ymchwil, gwerthuso, gweithgareddau comisiynu ar gyfer cymunedau a gweithio gyda phlatfformau.

Un datblygiad pwysig dros y cyfnod hwnnw oedd bod y Ddeddf Diogelwch Ar-lein wedi cael cydsyniad brenhinol ym mis Tachwedd 2023. Mae hyn wedi egluro ac ychwanegu manylion penodol at ddyletswyddau Ofcom o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn cyhoeddi strategaeth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau bob tair blynedd o leiaf a datganiad blynyddol yn adrodd ar ein gweithgareddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mewn ymateb i hyn, fe wnaethom fuddsoddi llawer iawn o amser i ddatblygu ein strategaeth tair blynedd ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac fe wnaethom addasu rhai o'n meysydd ffocws. Fe wnaethom ymgynghori ar y strategaeth ddrafft ym mis Ebrill 2024 a chawsom 46 o ymatebion ysgrifenedig i'r strategaeth a chlywed yn uniongyrchol gan 155 o randdeiliaid a gan 52 o bobl ifanc mewn digwyddiadau a gynhaliwyd ar-lein ac ar draws y DU. Rydym bellach wedi cyhoeddi ein strategaeth derfynol.

Mae ail hanner y ddogfen hon yn amlinellu ein cynlluniau penodol ar gyfer Hydref 2024 i Fedi 2025 wrth i ni ddechrau cyflawni'r strategaeth. Mae ein rôl fel rheoleiddiwr cyfryngau darlledu a rheoleiddiwr diogelwch ar-lein wedi'i nodi mewn mannau eraill, ac felly mae'r cynllun blynyddol Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau hwn yn canolbwyntio ar weithgareddau pellach Ofcom fel catalydd a chynullydd i alluogi'r ecosystem ehangach, ac weithiau ei herio.

Rydym yn croesawu eich barn a'ch adborth. Anfonwch eich sylwadau at: makingsenseofmedia@ofcom.org.uk.

# 2. Adroddiad gweithgareddau 2023/24

Yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2023, fe wnaethom nodi'r gweithgareddau roedden ni'n bwriadu eu cyflawni. Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd rydym wedi'i wneud ar gyfer pob un. Rydym wedi cwblhau'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau roeddem wedi ymrwymo iddynt ac wedi dechrau pob un.

Un maes lle nad ydym wedi gwneud cymaint o gynnydd ag yr oeddem wedi gobeithio yw cyllid ar gyfer gweithgareddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, sy'n adlewyrchu cymhlethdod y mater hwn.

| ALLWEDD | |
|---|---|
| Cwblhawyd | (gwyrdd) |
| Ar waith | (oren) |
| **Heb ddechrau neu wedi newid blaenoriaeth** | (coch) |

**Tabl 1: Beth rydym wedi'i gyflawni**

| Yr hyn roedden ni wedi'i ddweud | Beth rydym wedi'i gyflawni | Sgôr Coch, Oren Gwyrdd |
|---|---|---|
| **Ymgysylltu** | | |
| Byddwn yn cynnal un digwyddiad wyneb yn wyneb ym mhob un o wledydd y DU. | Fe wnaethom gynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb yng Nghaeredin, Belfast, Llundain a Chaerdydd ym mis Mehefin 2024. | Gwyrdd |
| Byddwn yn cynnal uwchgynhadledd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau wyneb yn wyneb i rannu syniadau Ofcom a chreu lle ar gyfer dysgu ar draws y sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. | Fe wnaethom gynnal cynhadledd wyneb yn wyneb ym mis Rhagfyr 2023, gan rannu gwaith Ofcom â thua 120 o bobl. Fe wnaethom groesawu 21 o siaradwyr gwadd a chyflwynwyr gweithdai. Yn yr adborth, disgrifiodd y rhai a oedd yn bresennol y digwyddiadau fel rhai "ardderchog a defnyddiol iawn", "difyr", "cytbwys" a "hyfryd". | Gwyrdd |
| Byddwn yn parhau i ehangu ein rhwydwaith, ac yn defnyddio ein panel cynghori a'n gweithgorau i hybu cydlynu a chydweithio. | Roedd nifer aelodau'r rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau wedi tyfu o 463 ym mis Mawrth 2023 i 615 ym mis Awst 2024. Roedd ein gweithgorau wedi cwrdd yn rheolaidd ac wedi cyfrannu at gefnogi ein gwaith ar ymchwil a gwerthuso. Cyfarfu ein panel cynghori bum gwaith gan gyfrannu arbenigedd ar benderfyniadau allweddol. | Gwyrdd |

| Yr hyn roedden ni wedi'i ddweud | Beth rydym wedi'i gyflawni | Sgôr Coch, Oren Gwyrdd |
| --- | --- | --- |
| **Polisi** | | |
| Byddwn yn mabwysiadu model 'ymchwil, adrodd, bwrdd crwn, ymateb' ar gyfer ein hallbynnau arweinyddiaeth meddwl, a fydd yn cynnwys cyhoeddiad ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac iechyd meddwl a thri phapur trafod ar y cyfleoedd a'r heriau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau sy'n gysylltiedig â thechnoleg y dyfodol agos. | Fe wnaethom gyhoeddi tri phapur trafod ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a thechnoleg yn y dyfodol a bydd papur arall yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2024. Fe wnaethom gynnal sesiwn drafod ar ein papur Deallusrwydd Artiffisial cynhyrchiol yng nghynhadledd MSOM 2023.<br>Ym mis Mai 2023 fe wnaethom gyhoeddi astudiaeth sy'n edrych ar y rôl y gall ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein ei chwarae o ran cefnogi iechyd meddwl pobl. | |
| Byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr Diogelwch Ar-lein a VSP i gyflawni'r gofynion sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y trefniadau hynny. | Rydym wedi gweithio ar draws y drefn VSP a Diogelwch Ar-lein i sicrhau bod Ofcom yn bodloni'r gofynion sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.<br>Rydym wedi cyhoeddi strategaeth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau 3 blynedd, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. | |
| **Ymyriadau ar gyfer cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol** | | |
| Byddwn yn cael effaith amlwg ar dros 2,000 o bobl sy'n cymryd rhan mewn ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. | Fe wnaethom gomisiynu 13 o sefydliadau i ddarparu ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar draws y DU, gan gyrraedd 2,717 o gyfranogwyr. | |
| Byddwn yn darparu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth roi ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar waith ar gyfer oedolion hŷn, pobl ag anableddau dysgu, plant rhwng 10 a 14 oed a chymunedau sy'n wynebu anfantais ariannol. | Fe wnaethom gyhoeddi 13 adroddiad gwerthuso ac adroddiad cyffredinol sy'n tynnu sylw at yr hyn sy'n gweithio i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. | |
| Byddwn yn darparu rhaglen hyfforddi a cheir ynddi gynnwys cwrs ar gyfer o leiaf un gweithlu sy'n cefnogi plant neu oedolion agored i niwed. | Fe wnaethom gomisiynu 3 chwrs hyfforddi i athrawon, gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol, gan hyfforddi 1,737 o bobl. | |

| Yr hyn roedden ni wedi'i ddweud | Beth rydym wedi'i gyflawni | Sgôr Coch, Oren Gwyrdd |
|---|---|---|
| Byddwn yn creu rhwydweithiau mewn pedair ardal yn y DU nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd gan ddarpariaeth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, a chreu glasbrint ar gyfer datblygu ymateb yn y gymuned i anghenion ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. | Fe wnaethom dreialu dull gweithredu seiliedig ar le gyda golwg ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn Birmingham, Glasgow a Rhondda Cynon Taf ac rydym wedi comisiynu sefydliadau lleol i barhau â'r gwaith dros y tair blynedd nesaf. Fe wnaethom ddechrau ar y gwaith hwn yng Ngogledd Iwerddon ym mis Awst 2024. | Oren |
| **Gwerthuso** | | |
| Bydd pob un o'r rhaglenni a gomisiynir gennym yn cael ei gwerthuso o ran effaith a bydd y gwersi a ddysgir o'r gwerthusiadau hynny'n cael eu rhannu. | Fe wnaethom ddarparu cefnogaeth gwerthuso i 13 o sefydliadau a gomisiynwyd i gyflawni gweithgareddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, a chyhoeddi eu hadroddiadau gwerthuso terfynol. Bydd adroddiadau gwerthuso pellach o'r rhaglenni a gomisiynwyd yn cael eu cyhoeddi dros y flwyddyn nesaf. | Gwyrdd |
| Byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn nodi themâu a heriau trawsbynciol ar draws yr ymyriadau a chronfa o ganlyniadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. | Cafodd yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ym mis Medi 2024 ochr yn ochr â'r gronfa o ganlyniadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. | Gwyrdd |
| Byddwn yn annog pobl i ddefnyddio'r pecyn gwerthuso ar draws y sector cyflawni ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a thu hwnt, gan anelu at sicrhau bod 100 o sefydliadau yn ei ddefnyddio erbyn mis Mawrth 2024. | Fe wnaethom hyrwyddo'r pecyn cymorth gwerthuso drwy chwe gweithdy ar-lein gyda 123 o fynychwyr drwyddi draw (nid oeddem yn caniatáu mwy na 25 ym mhob gweithdy). Roeddem hefyd wedi defnyddio cyfathrebiadau digidol, cyfleoedd i siarad yn y DU ac yn Ewrop a thrwy sefydliadau partner. Roedd y pecyn cymorth wedi cael ei lwytho i lawr dros 300 o weithiau erbyn mis Mehefin 2024. | Gwyrdd |
| Erbyn gwanwyn 2024, bydd o leiaf un cyllidwr platfform ac un cyllidwr mawr arall sy'n cyllido prosiectau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau wedi ymgorffori gwerthuso effaith yn eu prosesau. | Rydym yn parhau i drafod â chyllidwyr am rôl gwerthuso effaith yn eu prosesau. | Oren |

| Yr hyn roedden ni wedi'i ddweud | Beth rydym wedi'i gyflawni | Sgôr Coch, Oren Gwyrdd |
| --- | --- | --- |
| Darperir cyflwyniadau gan randdeiliaid allanol am gynlluniau ac ymchwil, gan alluogi'r llyfrgelloedd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i gael eu diweddaru bob chwarter. | Mae'r llyfrgell ymchwil ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a'r llyfrgell mentrau yn cael eu diweddaru bob chwarter. | |
| **Cyllid** | | |
| Byddwn yn sefydlu un bartneriaeth gyda chyllidwyr allweddol y sector. | Nid oeddem yn hyderus y byddai'r dull hwn yn ddigonol felly byddwn yn parhau i edrych ar atebion ar gyfer cyllid sector yn 2024-25. | |
| Byddwn yn cyhoeddi adolygiad o gyllidwyr a'u hawydd i werthuso. | Fe wnaethom gynnal dadansoddiad thematig o'r ymatebion a roddwyd gan 22 o gyllidwyr, mentrau neu arbenigwyr ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y DU (27 o gyfranogwyr unigol) yn ystod cyfweliadau lled-strwythuredig a gynhaliwyd yn ystod haf 2023. | |
| Byddwn yn ymgysylltu â chyllidwyr mewn meysydd cyfagos ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. | Rydym wrthi'n datblygu cysylltiadau gyda chyllidwyr. | |
| **Platfformau** | | |
| Byddwn yn cyhoeddi'r Egwyddorion Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau drwy Ddyluniad a luniwyd ar y cyd yn nhymor yr hydref 2023 ar ffurf drafft ac yn gofyn am adborth gan randdeiliaid. | Yn dilyn ein gwaith gydag arbenigwyr mewnol ac allanol, ym mis Hydref 2023 fe wnaethom gyhoeddi set ddrafft o 12 Egwyddor Arfer Gorau ar gyfer Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau drwy Ddyluniad fel cais am fewnbwn. Ochr yn ochr â hyn, fe wnaethom gyhoeddi ymchwil ansoddol ar agweddau defnyddwyr at ymyriadau ar blatfformau.<br><br>Ar sail adborth gan randdeiliaid, fe wnaethom gyhoeddi Fersiwn terfynol yr Egwyddorion ym mis Ebrill 2024. Ochr yn ochr â'r crynodeb o'r ymatebion ac ymchwil meintiol ar effeithlonrwydd ymyriadau ar blatfformau – yn yr achos hwn, negeseuon mewn crynodebau.<br><br>Mae Pinterest, Roblox, The Lego Group, a Google Search, wedi addo mabwysiadu'r egwyddorion arfer gorau. | |
| **Ymchwil** | | |

| Yr hyn roedden ni wedi'i ddweud | Beth rydym wedi'i gyflawni | Sgôr Coch, Oren Gwyrdd |
|---|---|---|
| Byddwn yn cyhoeddi ac yn hyrwyddo amrywiaeth o adroddiadau ymchwil sy'n ymwneud â'n tracwyr blynyddol manwl ac ymchwil pwrpasol ar agweddau penodol ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. | Rydym wedi cyhoeddi ymchwil i'r agweddau canlynol ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau:<br>• Technoleg ymgolli, a'r hyn gallai'r oblygiadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fod ar gyfer y dyfodol. (Mehefin 2023)<br>• Agweddau a phrofiadau'r rheini sydd â chredoau lleiafrifol (Medi 2023)<br>• Agweddau defnyddwyr at ymyriadau ar y platfform (Hydref 2023)<br>• Archwilio ymwybyddiaeth uchel o'r cyfryngau ymysg oedolion a phlant . (Rhagfyr 2023) Cafodd hyn ei ddilyn gan adroddiad cysylltiedig a oedd yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth uchel o'r cyfryngau ymysg plant 8-12 oed (Mawrth 2024).<br>Ym mis Ebrill, fe wnaethom gyhoeddi adroddiadau yn manylu ar ganfyddiadau ein harolygon tracio Oedolion a Phlant a Rhieni, yn ogystal â chanfyddiadau ein hymchwil hydredol i fywydau cyfryngau Oedolion a Phlant. Ar ôl cyhoeddi, fe wnaethom gynnal digwyddiad i randdeiliaid i hyrwyddo ac i drafod y canfyddiadau. | |

# 3. Cynllun ymwybyddiaeth o’r cyfryngau 2024/25

Drwy gydol 2024, fe wnaethom ddatblygu ein strategaeth tair blynedd ar ymwybyddiaeth o’r cyfryngau drwy ymgynghori â rhanddeiliaid a phobl ifanc ar draws y DU. O ganlyniad, mae ein gweithgareddau arfaethedig ar gyfer eleni wedi’u rhestru mewn tair adran, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â’r strategaeth. Dyma un ffordd i ni ddal ein hunain yn atebol, gan sicrhau ein bod yn gweithio bob blwyddyn i gyflawni’r nodau sy’n cael eu disgrifio yn ein strategaeth neu’n tynnu sylw at newidiadau i’n cynllun yn ôl yr angen.

Mae nodau ein strategaeth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn uchelgeisiol ond rydym yn bwriadu eu cyflawni erbyn mis Medi 2027.

Yn ogystal â’r gweithgareddau a gynlluniwyd, rydym wedi amlinellu ein ffyrdd o weithio. Mae hyn yn adlewyrchu ein bod yn cydnabod ein bod yn dibynnu ar sefydliadau eraill ar draws y sectorau masnachol, cyhoeddus a’r trydydd sector i gyflawni ein nodau. Yn sail i bob gweithgaredd a gynllunnir mae ein bwriad i wneud ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn fusnes i bawb.

## Ymchwil, Tystiolaeth a Gwerthuso

Yn ein strategaeth tair blynedd, rydym yn nodi ein canlyniadau targed ar gyfer y maes hwn o'n gwaith:

- Erbyn 2027, bydd gwell dealltwriaeth a mesur o ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, oherwydd bydd rhanddeiliaid yn defnyddio ein tystiolaeth ymchwil ar gyfer datblygu eu polisïau a gweithgareddau.
- Erbyn 2027, bydd dealltwriaeth ddyfnach o 'beth sy'n gweithio' ar gyfer darparu ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau mewn sectorau perthnasol.

| Allbynnau targed Hydref 2024 – Medi 25 | ...sy'n bwydo i mewn i'n nodau strategaeth tair blynedd |
|---|---|
| • **Cyhoeddi ymchwil mewn meysydd sy'n cyd-fynd â'n gwaith polisi:**<br>**- Teithiau defnyddwyr at gasineb at fenywod ar-lein**<br>**- Adnabod a chefnogi grwpiau sy'n agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth**<br>**- Gwella dealltwriaeth defnyddwyr o sut mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio gan wasanaethau ar-lein.**<br>• **Sefydlu Gweithgor Ymchwil, Tystiolaeth a Gwerthuso ar ei newydd wedd gan ddefnyddio mewnbwn gan sefydliadau'r trydydd sector ac academyddion.** | Parhau i ddefnyddio ein hymchwil i lywio ymyriadau datblygu polisi ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, ac i annog rhanddeiliaid i'w defnyddio a'u dadansoddi ymhellach. |
| • **Ail-dendro ein harolygon tracio ymwybyddiaeth o'r cyfryngau meintiol gan ganolbwyntio mwy ar samplau cadarn ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.** | Amlygu lleisiau a thystiolaeth amrywiaeth o grwpiau mewn cymdeithas fel bod ein hymchwil yn ddefnyddiol i gynifer o bobl a sefydliadau â phosib. |
| • **Cefnogi'r gwaith o werthuso ein prosiectau a gomisiynir a rhannu eu canfyddiadau drwy gyhoeddiadau a digwyddiadau ymgysylltu eraill fel digwyddiadau dysgu dros ginio.**<br>• **Cyhoeddi a rhannu canfyddiadau ein hymyriadau wedi'u comisiynu a gafodd eu darparu ar draws y DU rhwng 2022 a 2024.**<br>• **Cyhoeddi a rhannu canfyddiadau y cyrsiau hyfforddi roeddem wedi'u comisiynu a gafodd eu darparu rhwng 2023 a 2024.** | Rhannu ein gwybodaeth am 'beth sy'n gweithio' o ran cyflawni ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. |
| • **Cynnal cyfres o weminarau, cymorthfeydd a gweithdai gan ddefnyddio ein hadnoddau gwerthuso gan gynnwys y pecyn gwerthuso a chanlyniadau, dangosyddion a mesurau enghreifftiol.** | Cefnogi darparwyr mentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i gynnal gwerthusiad, gan arwain at ddiwylliant lle mae dulliau arfer gorau yn cael eu datblygu, eu rhannu a'u defnyddio i ddatblygu ymyriadau mwy effeithiol. |

| Allbynnau targed Hydref 2024 – Medi 25 | ...sy’n bwydo i mewn i’n nodau strategaeth tair blynedd |
|---|---|
| • **Creu fframwaith gwerthuso ar gyfer ein gwaith ein hunain.**<br>• **Adrodd ar y gweithgareddau a nodir yn y cynllun blynyddol ac a ydynt wedi cael eu cyflawni.** | Cynnal gwerthusiad effaith o’n strategaeth tair blynedd ar ymwybyddiaeth o’r cyfryngau a rhannu’r gwersi a ddysgwyd er mwyn modelu arferion gorau. |

## Ffyrdd o weithio

Er mwyn ehangu hyd a lled ein dealltwriaeth o ddefnyddio’r cyfryngau ac ar-lein yng nghyd-destun bywyd bob dydd a chefnogi’r sector i ddeall ‘beth sy’n gweithio’ ar gyfer cyflwyno mentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, rhwng mis Hydref 2024 a mis Medi 2025, byddwn yn:

- Adeiladu ar ein hystod o ddulliau cadarn ac arloesol i roi cipolwg ar ein pynciau blaenoriaeth. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid allanol ar ddadansoddiad eilaidd o’n setiau data a ffocws o’r newydd ar ddadansoddi is-grwpiau.
- Nodi arolygon ac astudiaethau sydd eisoes yn bodoli’r tu allan i’r sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a allai lywio a chefnogi mesurau tracio ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a ddewiswyd.
- Alinio ein hymchwil â’n nodau strategol i gyfrannu at ddatblygu ein polisi a’n hymyriadau ymwybyddiaeth o’r cyfryngau. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys y rheini o’r trydydd sector a’r byd academaidd i ystyried eu blaenoriaethau i gasglu tystiolaeth ac i ddeall y ffordd orau o ehangu’r ystod o ymchwil a thystiolaeth sydd ar gael.
- Cyflwyno ein canfyddiadau mewn ffyrdd hawdd eu defnyddio i’w defnyddio gan randdeiliaid yn y sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a’r tu hwnt iddo.
- Archwilio ffyrdd o gyrraedd y cyhoedd yn ehangach gyda chanfyddiadau ein hymchwil.
- Parhau i weithio gydag arbenigwyr drwy ein gweithgor Ymchwil, Tystiolaeth a Gwerthuso newydd, gan gydnabod y berthynas rhwng gwerthuso ac ymchwil, a’r gorgyffwrdd rhwng arbenigedd yn y meysydd hyn.
- Archwilio ffyrdd o gynyddu ein hadnoddau gwerthuso fel eu bod o’r gwerth mwyaf i’r cynulleidfaoedd sydd eu hangen. Gallai hyn fod drwy ein rhwydweithiau presennol (gan gynnwys ein cysylltiadau rhyngwladol) yn ogystal â thrwy gynulleidfaoedd newydd a nodwyd drwy ymarfer cwmpasu.
- Canolbwyntio ar greu diwylliant o rannu a bod yn agored am werthuso er mwyn sicrhau bod ei fanteision yn cael eu deall yn well. Er enghraifft, drwy sesiynau dysgu dros ginio i randdeiliaid sy’n canolbwyntio ar werthuso.
- Parhau i rannu “beth sy’n gweithio” wrth werthuso â’n rhanddeiliaid, gan gynnwys canlyniadau o’r ymyriadau rydym wedi’u comisiynu.

# Ymgysylltu â Phlatfformau

Yn ein strategaeth tair blynedd, rydym yn nodi ein canlyniad targed ar gyfer y maes hwn o'n gwaith:

- Erbyn 2027, bydd gwasanaethau ar-lein yn darparu gwell cymorth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i'w defnyddwyr, gwerthuso mwy ar effaith y cymorth hwn, a chyllid tymor hirach ar gyfer mentrau sy'n helpu i ddarparu'r cymorth hwn.

| Allbynnau targed Hydref 2024 – Medi 25 | ...sy'n bwydo i mewn i'n nodau strategaeth tair blynedd |
|---|---|
| • **Parhau i weithio gyda phlatfformau i hybu'r gwaith o fabwysiadu'r Egwyddorion Arfer Gorau ymhellach a monitro / adrodd ar a yw platfformau'n cyflawni eu hymrwymiad. Drwy wahodd pob gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio i addo mabwysiadu'r Egwyddorion Arfer Gorau, byddwn yn parhau i ehangu ein gwaith i ystod ehangach fyth o wasanaethau.**<br>• **Monitro cynnydd gwasanaethau ar-lein o ran hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.**<br>• **Hybu datblygu a defnyddio technolegau, systemau a dulliau gweithredu sy'n rhoi mwy o gyd-destun i ddefnyddwyr am y cynnwys byddant yn dod ar ei draws.**<br>• **Defnyddio ein mecanweithiau adrodd rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd mae platfformau wedi'i wneud a lle rydym yn meddwl bod mwy i'w wneud.**<br>• **Paratoi datganiad o argymhellion i blatfformau sy'n amlinellu sut gallai gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio neu wasanaethau eraill ddatblygu, mynd ar drywydd a gwerthuso gweithgareddau a chanlyniadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.** | Adeiladu ar waith sy'n blaenoriaethu ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r cyfryngau ar y platfform drwy hyrwyddo arferion gorau. |
| • **Gweithio gyda'r platfformau hynny sydd wedi addo mabwysiadu'r egwyddorion a thu hwnt i hyrwyddo, canolbwyntio ar fonitro a gwerthuso, yn benodol.**<br>• **Datblygu ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar y platfform er mwyn i ni allu annog a dal platfformau i gyfrif mewn perthynas ag ymyriadau effeithiol.** | Sicrhau bod platfformau'n gwreiddio gwerthusiadau er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. |

| Allbynnau targed Hydref 2024 – Medi 25 | ...sy’n bwydo i mewn i’n nodau strategaeth tair blynedd |
|---|---|
| • **Datblygu ein dealltwriaeth o sut mae platfformau’n ariannu ac yn buddsoddi mewn ymwybyddiaeth o’r cyfryngau fel rhan o’r gwaith o lywio ein disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau.**<br>• **Ystyried sut gallwn ni ddefnyddio ein dulliau rheoleiddio i annog platfformau i fod yn dryloyw am yr effaith mae eu cyllid ar gyfer ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn ei chael. ,** | Gweithio i sicrhau bod platfformau’n cyllido rhaglenni ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. |
| • **Dadansoddi sut mae darlledwyr yn cefnogi sgiliau ymwybyddiaeth o’r cyfryngau eu defnyddwyr drwy’r adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus.**<br>• **Diweddaru canllawiau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.** | Adolygu beth mae darlledwyr yn ei wneud i gefnogi ymwybyddiaeth o’r cyfryngau cynulleidfaoedd i’w helpu i liniaru effaith camwybodaeth a thwyllwybodaeth. |

## Ffyrdd o weithio

Er mwyn datblygu ein gwaith yn dal platfformau i gyfrif am ddarparu cefnogaeth ymwybyddiaeth o’r cyfryngau well i’w defnyddwyr, gwerthuso mwy ar effaith y gefnogaeth hon, a chyllid tymor hirach i fentrau sy’n helpu i ddarparu’r gefnogaeth hon, rhwng mis Hydref 2024 a mis Medi 2025, byddwn yn:

- Datblygu ein sylfaen dystiolaeth ar niwed posibl ar y platfformau a deall beth fyddai defnyddwyr yn hoffi gweld gwasanaethau sy’n cael eu rheoleiddio yn ei wneud i’w cefnogi.
- Gwneud argymhellion sy’n seiliedig ar dystiolaeth ar yr hyn gall mwy o wasanaethau sy’n cael eu rheoleiddio fod yn ei wneud i ddiogelu eu defnyddwyr o safbwynt ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.
- Sicrhau cysondeb ar draws Ofcom o ran polisi ac ymgysylltu sy’n ymwneud â gwasanaethau sy’n cael eu rheoleiddio i sicrhau cynnydd a chamau gweithredu o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

## Pobl a phartneriaethau

Yn ein strategaeth tair blynedd, rydym yn nodi ein canlyniad targed ar gyfer y maes hwn o'n gwaith:

- Erbyn 2027, bydd mwy o bobl yn gallu cael gafael ar y sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ffeindio eu ffordd drwy gynnwys a ffynnu'n ddiogel ar-lein, a bydd addysgwyr a gweithluoedd blaenoriaeth eraill mewn sefyllfa well i ddarparu sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.
- Erbyn 2027, bydd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn fwy o flaenoriaeth i ystod ehangach o sefydliadau a sectorau.

| Allbynnau targed Hydref 2024 – Medi 25 | ...sy'n bwydo i mewn i'n nodau strategaeth tair blynedd |
|---|---|
| • **Comisiynu gweithgareddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau sy'n ymwneud â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth.**<br>• **Gweithio gydag arbenigwyr sy'n gweithio ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a chasineb ar-lein i ddatblygu argymhellion ar gyfer polisi ac ymarfer.** | Comisiynu ymyriadau wedi'u targedu yn y carfanau lle mae'r angen mwyaf a rhannu arferion gorau â sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a'u cyllidwyr. |
| • **Cryfhau'r berthynas ag awdurdodau addysg ym mhob gwlad a meithrin partneriaethau gyda sefydliadau addysg perthnasol e.e. Ymddiriedolaethau Aml-academi.**<br>• **Adolygu'r cynnig presennol o hyfforddiant athrawon yn Lloegr a chomisiynu cyrsiau hyfforddi.** | Ymgysylltu ag awdurdodau addysg ac ysgolion i hybu ac i gefnogi addysg ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. |
| • **Comisiynu dulliau seiliedig ar leoedd ar gyfer ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn Glasgow, Birmingham a Rhondda Cynon Taf.**<br>• **Parhau i archwilio opsiynau i weithio mewn partneriaeth â'r sector cynhwysiad digidol yng Ngogledd Iwerddon.**<br>• **Ymuno â rhwydweithiau cynhwysiad digidol cenedlaethol a chyfrannu atynt.** | Parhau i adeiladu ar y seilwaith cynhwysiad digidol, er mwyn i'r rheini sy'n newydd i dechnoleg allu dechrau a pharhau'n dda. |

| Allbynnau targed Hydref 2024 – Medi 25 | ...sy’n bwydo i mewn i’n nodau strategaeth tair blynedd |
|---|---|
| • **Darparu cynllun ymgysylltu pwrpasol ar gyfer y gwledydd sy’n cydnabod cyd-destun ac anghenion lleol ym mhob lle, mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o’r cyfryngau.**<br>• **Cynnal cynhadledd aeaf wyneb yn wyneb, gan fynd i’r afael â meysydd diddordeb allweddol ar draws newyddion, camwybodaeth a thwyllwybodaeth a chynnwys sy’n bwysig yn ddemocrataidd.**<br>• **Datblygu a darparu cynllun ymgysylltu strategol sy’n canolbwyntio ar wneud ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn fusnes i bawb.** | Meithrin perthnasoedd newydd ac ehangu ein rhwydwaith i wneud ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn flaenoriaeth i ystod ehangach o sefydliadau. |
| • **Dod ag arbenigwyr at ei gilydd i ystyried goblygiadau technolegau’r dyfodol a thechnolegau sy’n dod i’r amlwg, fel deallusrwydd artiffisial, ar feysydd penodol o fywydau defnyddwyr.** | Adeiladu ar ein rôl fel cynullydd arbenigwyr ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i greu polisïau ac argymhellion ymarferol ar y cyd ar dechnolegau datblygol fel deallusrwydd artiffisial. |

## Ffyrdd o weithio

Mae gwella sgiliau ymwybyddiaeth y genedl o’r cyfryngau yn her fawr. Mae Ofcom mewn sefyllfa unigryw i weithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid sydd wedi buddsoddi yn y gwaith hwn. Byddwn yn parhau i ddarparu gweithgareddau ymwybyddiaeth o’r cyfryngau, yn enwedig lle byddwn yn gallu diwallu angen nad yw’n cael sylw’n barod a dangos beth sy’n gweithio i wella ymwybyddiaeth o’r cyfryngau. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau arbenigol a sefydliadau sydd â diddordeb i helpu i rannu arferion gorau a chreu cyfleoedd i gydweithio. Rydym yn parhau i weld ein rôl fel cynullydd a chatalydd a byddwn yn defnyddio ein cysylltiadau a chyda gwasanaethau ar-lein a darlledwyr i helpu i sicrhau newid.

Rhwng mis Hydref 2024 a mis Medi 2025, byddwn yn:

- Defnyddio dull sy’n seiliedig ar dystiolaeth, gan ddefnyddio ymchwil o’n swyddogaeth ymchwil ein hunain yn ogystal â sefydliadau ac academyddion eraill yn y DU ac yn rhyngwladol.
- Blaenoriaethu lleisiau’r bobl rydym yn ceisio eu cefnogi a’r arbenigwyr sy’n eu hadnabod orau.
- Sefydlu cysylltiadau sydd o fudd i’r ddwy ochr gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.
- Annog rhanddeiliaid i fabwysiadu dull dysgu, gan rannu eu heriau yn ogystal â’u llwyddiannau, drwy gefnogi’r gwaith o werthuso a modelu hyn ein hunain.
- Cefnogi rhanddeiliaid i ddeall y cyfleoedd sy’n deillio o’r technolegau newydd ac sy’n datblygu.

- Parhau i weithio gydag arbenigwyr drwy ein panel cynghori, sydd i fod i gael ei adnewyddu eleni.

# 4. Cynllun cyhoeddiadau 2024/25

Dyma restr o’r cyhoeddiadau rydym yn disgwyl eu cynhyrchu dros y flwyddyn nesaf.

**Tabl 3: Amserlen cyhoeddiadau ddangosol ar gyfer 2024/25**

| Cyhoeddiadau | Dyddiad dangosol |
|---|---|
| **Gwella dealltwriaeth defnyddwyr o sut mae gwasanaethau ar-lein yn defnyddio eu gwybodaeth bersonol.**<br>*Hapdreial Rheoli i nodi pa ffyrdd o gyflwyno gwybodaeth gofrestru sydd fwyaf effeithiol o ran gwella dealltwriaeth defnyddwyr, i gefnogi ein gwaith gyda phlatfformau.* | Hydref 2024 |
| **Technoleg y dyfodol ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau: defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol**<br>*Papur trafod sy’n archwilio defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a sut bydd hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr, gan gynnwys risgiau a chyfleoedd wrth ddefnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a sut gallai defnyddwyr, platfformau a’r sector ymwybyddiaeth o’r cyfryngau ymateb.* | Hydref 2024 |
| **Teithiau defnyddwyr at gasineb at fenywod ar-lein**<br>*Ymchwil ansoddol i archwilio sut mae defnyddwyr yn cael eu denu i gymunedau ar-lein sy’n lledaenu ac yn hyrwyddo casineb at fenywod, y ffyrdd mae ymwybyddiaeth o’r cyfryngau yn siapio gweithredoedd a dealltwriaeth, ac ymyriadau posibl ar gyfer ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.* | Gaeaf 2024 |
| **Beth sy’n gweithio mewn DPP ymwybyddiaeth o’r cyfryngau**<br>*Adroddiad gwerthuso sy’n disgrifio effaith a gwersi cyflwyno tri chwrs datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).* | Gwanwyn 2025 |
| **Adnabod a chefnogi grwpiau sy’n agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth**<br>*Prosiect methodoleg cymysg gan gynnwys arolwg, adolygiad llenyddiaeth ac ymchwil ansoddol, i ddeall pa grwpiau mae camwybodaeth a thwyllwybodaeth yn effeithio arnynt, a ffyrdd priodol o gefnogi’r grwpiau hyn.* | Gwanwyn 2025 |
| **Adroddiadau Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion a Phlant o’r Cyfryngau a’r Cyfryngau ym Mywyd**<br>*Cyhoeddiadau tracio ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ansoddol a meintiol blynyddol Ofcom.* | Gwanwyn 2025 |
| **Datganiad o argymhellion**<br>*Adrodd fel rhan o ddyletswyddau Diogelwch Ar-lein Ofcom sy’n amlinellu sut gallai gwasanaethau sy’n cael eu rheoleiddio neu wasanaethau eraill ddatblygu, mynd ar drywydd a gwerthuso gweithgareddau a chanlyniadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.* | Haf 2025 |